

Briff Ymchwil:

Negodiadau ar ymadawiad
y DU â'r UE: Adroddiad
Monitro - 9 Gorffennaf 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6219**

E-bost: **Manon.George@assembly.wales**

Twitter: **[@SeneddResearch](https://twitter.com/SeneddResearch)**

Blog: **SeneddResearch.blog**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Awdur: Joseph Champion, Manon George ac Alastair Grey
Dyddiad: Gorffennaf 2018
Rhif yr ymholiad: 18-046



Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
Crynodeb o'r datblygiadau	1
2. Y datblygiadau diweddaraf a'r dogfennau a gyhoeddwyd	5
Negodiadau	5
Partneriaeth yn y dyfodol	8
Bod yn barod ar gyfer Brexit.....	14
Deddfwriaeth y DU.....	17
Dogfennau a phapurau safbwynt.....	23
3. Meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol.....	55
Paratoi ar gyfer Brexit	55
Goblygiadau Brexit i Gymru.....	55
4. Ymateb Llywodraeth Cymru	58

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â negodiadau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â'r UE ers 11 Mehefin.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb o'r datblygiadau diweddaraf, y dogfennau a'r ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd;
- Dadansoddiad o'r materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ('y Pwyllgor'); a
- Chrynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

Crynodeb o'r datblygiadau

- Ar 6 Mehefin, cafodd Deddf 'parhad' Llywodraeth Cymru, sef [Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd \(Cymru\) 2018](#), Gydsyniad Brenhinol.
- Cyhoeddwyd sleidiau Llywodraeth y DU ar [Fframwaith ar gyfer y Bartneriaeth rhwng y DU a'r UE: Trafnidiaeth](#) ar 7 Mehefin. Mae'r sleidiau'n canolbwyntio ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer trafndiaeth awyr a ffyrdd.
- Ar [8 Mehefin, crynhodd Michel Barnier y negodiadau](#), gan nodi bod cynnydd wedi'i wneud ar yr hyn a elwir yn faterion gwahanu eraill. Fodd bynnag, nododd fod angen rhagor o waith ar ddata personol dinasyddion yr UE, dangosyddion daearyddol, llywodraethu'r cytundeb ymadael a'r ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon.
- Ar 11 Mehefin, cyhoeddodd yr UE [sleidiau ar nodyn technegol Llywodraeth y DU](#) ar drefniadau tollau dros dro. Mae'r sleidiau'n nodi bod yr UE o'r farn nad oedd cynigion y DU yn ddigonol.
- Ar 13 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei sleidiau ar [Fframwaith ar gyfer y bartneriaeth rhwng y DU a'r UE: Cydweithredu barnwrol sifil](#). O ganlyniad, mae'r DU yn ceisio cytundeb dwyochrog newydd sy'n cwmpasu ystod lawn o gydweithrediad barnwrol sifil â'r UE sy'n cwmpasu cyfraith deuluol, sifil a masnachol ac ansolfedd.

- Hefyd ar 13 Mehefin, cyhoeddodd yr UE ei slidiau ar gymryd rhan yng ngweithgareddau'r UE sy'n gysylltiedig â'r gofod. Mae'r slidiau hyn yn nodi nad yw'r UE yn barod i ganiatáu i'r DU gael mynediad arbennig at ei raglenni gofod.
- Ar 18 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y caiff £2.15 miliwn ei ddarparu, drwy Gronfa Trawsnewid UE Llywodraeth Cymru, sy'n werth £50 miliwn, i helpu'r sector cig coch yng Nghymru i ddatblygu.
- Ar 24 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU nodyn technegol ar ddiogelwch, gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol. Ymatebodd Michel Barnier i gynigion y DU mewn araith yn Asiantaeth yr Undeb Ewropeaidd dros Hawliau Sylfaenol ar 19 Mehefin.
- Ar 19 Mehefin, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig Ddatganiad ar y Cyd yn amlinellu rhagor o gynnydd yn negodiadau Erthygl 50¹. Tynnodd y Datganiad ar y Cyd hwn sylw at y cynnydd ar y materion gwahanu eraill yn y Cytundeb Ymadael Drafft.
- Ar yr un diwrnod, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid lythyr at holl Aelodau'r Cynulliad i gadarnhau manylion y Cytundeb Rhynglywodraethol y daethpwyd iddo rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Ar 21 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU nodyn technegol ar gydgysylltu diogelwch allanol. Mae hyn yn adeiladu ar ei slidiau ar Fframwaith ar gyfer partneriaeth ddiogelwch rhwng y DU a'r UE a gyhoeddwyd ar 9 Mai a'r nodyn technegol ar gydweithrediad diogelwch, a gyhoeddwyd ar 24 Mai. Mae safbwynt yr UE ar y materion hyn wedi'i nodi yn slidiau ar bolisi tramor, diogelwch ac amddiffyn, a gyhoeddwyd ar 15 Mehefin 2018.
- Hefyd ar 21 Mehefin, cyhoeddodd Swyddfa Gartref y DU ddatganiad o fwriad ynghylch cynllun preswyllo'n sefydlog UE Llywodraeth y DU ar ôl Brexit. Ysgrifennodd Mark Drakeford, Ysgrifennydd Cabinet Cymru dros Gyllid, a Fiona Hyslop, Ysgrifennydd Materion Allanol Cabinet yr Alban, lythyr ar y cyd at yr Ysgrifennydd Cartref yn gofyn am ymgynghori'n llawn â'r gweinyddiaethau datganoledig ar fanylion y cynllun preswyllo'n

¹ Ceir cyhoeddiad cyfochrog Llywodraeth y DU yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/joint-statement-on-withdrawal-agreement-19-june-2018>

sefydlog cyn eu cyhoeddi ar 15 Mehefin. Ar 3 Gorffennaf, cyhoeddodd Grŵp Llywio Brexit Senedd Ewrop **ddatganiad** mewn ymateb i ddatganiad o fwriad Llywodraeth y DU.

- Ar yr un diwrnod, cafwyd araith gan Ganghellor y DU **yn Mansion House** a oedd yn canolbwyntio ar safbwynt y DU ar gytundeb gwasanaethau ariannol yn y dyfodol â'r UE. Ynnddi, mae'n ailadrodd barn Llywodraeth y DU nad yw model cyfatebol safonol yr UE yn addas ar gyfer y math o gytundeb y mae'r DU am ei gael.
- Ar 21 Mehefin, cyhoeddodd Airbus **asesiad risg** ar y goblygiadau i'w fusnes mewn senario dim cytundeb.
- Cynhaliodd y Fforwm Rhynglywodraethol ar Brexit **ei bedwerydd cyfarfod** ar 21 Mehefin 2018. Cafodd y cyfarfod hwn ei gynnal gan Dŷ'r Cyffredin a'i gadeirio gan Syr Bernard Jenkin AS, Cadeirydd y Pwyllgor Gweinyddu Cyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol. Cafodd ei **ddatgan mewn datganiad ar y cyd**
- Ar 26 Mehefin, galwodd **Cymdeithas y Gwneuthurwyr a Masnachwyr Moduron** am gynnydd cyflymach ar y negodiadau Brexit a chytundeb sydd, o leiaf, yn cynnal aelodaeth o'r undeb tollau ac yn darparu manteision y farchnad sengl.
- Ar 29 Mehefin, cyhoeddodd Cyngor yr UE **ei bedwar casgliad** ar y negodiadau hyd yn hyn. Tynnodd y Cyngor sylw at yr angen i ddod o hyd i ateb o ran y ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon, a Gibraltar.
- Ar 3 Gorffennaf, cyhoeddodd Siambrau Masnach Prydain restr o 24 o **gwestiynau ymarferol y mae ar fusnesau angen atebion iddynt** mewn perthynas â Brexit
- Ar 22 Mehefin, cynhaliwyd **cyfarfod** Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Negodiadau Ewropeaidd yn Guernsey cyn cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Hefyd, cynhaliodd Prif Weinidogion Cymru a'r Alban **gyfarfod ar wahân** ar ôl cyfarfod y Cyngor â Leo Varadkar, Prif Weinidog Iwerddon.
- Ar 26 Mehefin, cyhoeddodd Fforwm Polisi Conffederasiwn GIG Cymru **bapur briffio** ar y materion allweddol ar gyfer sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol wrth i'r DU baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd. Yr un diwrnod hwnnw, cafwyd **datganiad llafar** gan Ysgrifennydd y Cabinet

dros iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y risgiau a achosir gan Brexit ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

- Ar 27 Mehefin, cynhaliwyd ail gyfarfod y Fforwm Gweinidogol ar y Cyd ar negodiadau Brexit.
- Ar 2 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru y bydd myfyrwyr o'r UE yn parhau i gael eu trin fel myfyrwyr cartref wrth wneud cais am gyrsiau sy'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2019/2020.
- Ar 3 Gorffennaf, cafwyd araith gan Robin Walker, yr Is-ysgrifennydd Cwladol Seneddol yn yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ar gydnabyddiaeth gan y ddwy ochr o gymwysterau proffesiynol yn y dyfodol.
- Ar 4 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phapur gwyn ar bysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

2. Y datblygiadau diweddaraf a'r dogfennau a gyhoeddwyd

Negodiadau

Ar adeg cyhoeddi'r Cytundeb Ymadael Drafft ym mis Mawrth 2018, disgwyliwyd y byddai cyfarfod Cyngor Ewrop ar 28-29 Mehefin yn cynnwys y negodiadau'n cyrraedd lefel uwch. Fodd bynnag, am y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd, roedd yn amlwg na fyddai hyn yn wir, gyda'r DU yn gohirio cyhoeddi ei phapur gwyn ar ei pherthynas arfaethedig â'r UE yn y dyfodol tan ar ôl cyfarfod y Cyngor. Disgwylir i'r papur gwyn gael ei gyhoeddi ar ôl cyfarfod Prif Weinidog y DU a'r cabinet llawn ar 6 Gorffennaf, sydd wedi cael cryn gyhoeddusrwydd.

Ar 8 Mehefin, crynhodd Michel Barnier y negodiadau bryd hynny. Yn y datganiad hwnnw, tynnodd sylw at y ffaith bod cynnydd wedi'i wneud ar y materion gwahanu eraill² a bod modd datrys y materion hyn cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Ewropeaidd. Fodd bynnag, nododd fod angen rhagor o waith ar y canlynol:

- Diogelu data personol dinasyddion yr UE – ailadroddodd safbwynt yr UE, sef sicrhau bod data sydd eisoes wedi'u cyfnewid yn parhau i gael eu diogelu fel heddiw;
- Diogelu dangosyddion daearyddol, gan nodi ei bod yn debyg nad oes ganddo safbwynt y DU ar y mater;
- Y gweithdrefnau torri a gweinyddol sy'n ymwneud â'r DU a fydd yn parhau ar ddiwedd y cyfnod pontio, er enghraifft ym maes cymorth gwladwriaethol;
- O ran llywodraethu'r Cytundeb Ymadael, nododd y materion sy'n ymwneud â hyn mewn araith yn Lisbon ar 26 Mai; a'r
- Ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon.

Ar ôl y cyfarfod hwn, ar 11 Mehefin, cyhoeddodd yr UE ffeithlun ar ei gynnig os metha popeth arall ar gyfer y ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Ar yr un

² Materion gwahanu eraill yw'r materion sy'n wahanol i hawliau dinasyddion, Gogledd Iwerddon a'r setliad ariannol.

diwrnod, cyhoeddodd hefyd sleidiau ar nodyn technegol Llywodraeth y DU³ ar drefniadau tollau dros dro. Mae'r sleidiau'n cymharu ei chynigion â threfniant tollau dros dro arfaethedig y DU, gan ddod i'r casgliad a ganlyn, er bod ei chynigion yn amserol ac yn ymarferol, ynghylch cynigion y DU:

- maent yn gadael cwestiynau allweddol heb eu hateb;
- nid ydynt yn cwmpasu rheolaethau rheoleiddiol, a fyddai'n arwain at ffin galed; a'u bod
- yn gyfyngedig o ran amser, gyda'r DU yn disgwyl i'r trefniant bara tan fis Rhagfyr 2021.

Ar 2 Gorffennaf, adroddodd y BBC fod Prif Weinidog y DU wedi datblygu model tollau newydd ar gyfer y DU ar ôl Brexit a fyddai'n cynnig y gorau o'r ddau fyd – polisi masnach annibynnol a masnachu heb wrthdaro'. Disgwylir i fanylion y cynllun hwn gael eu cyhoeddi ar ôl cyfarfod y Prif Weinidog â'i Chabinet ar 6 Gorffennaf.

Ar 19 Mehefin, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig Ddatganiad ar y Cyd yn amlinellu rhagor o gynnydd yn negodiadau Erthygl 50⁴. Tynnodd y Datganiad ar y Cyd hwn sylw at y cynnydd ar y materion gwahanu eraill yn y Cytundeb Ymadael Drafft y cyfeiriodd Barnier atynt ar 8 Mehefin. Mae Adrannau 3 a 4 y Datganiad ar y Cyd yn tynnu sylw at yr erthyglau yn Rhan Tri o'r Cytundeb Drafft y cytunwyd arnynt erbyn hyn. Mae'r erthyglau hyn yn ymwneud â'r canlynol:

3. Mae'r ddau Barti wedi dod i gytundeb ar yr erthyglau a ganlyn o Ran Tri o'r Cytundeb drafft:

Teitl I - Nwyddau a roddir ar y farchnad: Erthygl 42 (Trefnu argaeledd gwybodaeth a gedwir gan gyrff hysbysedig a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth);

- Teitl III - Materion treth ar werth a tholl gartref parhaus: Erthygl 47 (Treth ar werth);

³Mae'r nodyn technegol hwn yn pennu cynnig y DU i elfen tollau trefniad fodloni ei hymrwymiaadau o ran Gogledd Iwerddon a chafodd ei gyhoeddi ar 7 Mehefin.

⁴ Ceir cyhoeddiad cyfochrog Llywodraeth y DU yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/joint-statement-on-withdrawal-agreement-19-june-2018>

- Teitl IV – Eiddo deallusol: Erthygl 56 (Ceisiadau dros dro am dystysgrifau diogelu atodol yn y Deyrnas Unedig);
- Teitl VI – Cydweithrediad barnwrol parhaus mewn materion sifil a masnachol: Erthygl 63 (Awdurdodi, cydnabod a gorfodi penderfyniadau barnwrol, a chydweithrediad cysylltiedig rhwng awdurdodau canolog);
- Teitl VIII – Caffaeliadau cyhoeddus parhaus a gweithdrefnau tebyg: Erthygl 72 (2) (Rheolau sy'n gymwys i weithdrefnau parhaus); Erthygl 73 (Gweithdrefnau adolygu);
- Teitl IX – Materion sy'n gysylltiedig â EURATOM: Erthygl 79 (Perchnogaeth a hawliau defnyddio deunyddiau ymestynnol arbennig yn y Deyrnas Unedig); a
- Theitl XI – Gweithdrefnau cydweithredu gweinyddol: Erthygl 94 (Cydweithrediad gweinyddol ar gyfer materion sy'n ymwneud â threth anuniongyrchol); Erthygl 95 (Cymorth cydfuddiannol i adennill hawliadau sy'n ymwneud â threthi, tollau a mesurau eraill).

4. Yn ychwanegol, mae'r ddau Barti wedi dod i gytundeb ar y canlynol:

- Atodiad y+7 ar derfynau amser a grybwyllir ym mharagraff 1 o Erthygl 45 (Gorffen trefniadau storio dros dro neu weithdrefnau tollau); ac
- Atodiad y+4 y cyfeirir ato yn Erthyglau 46 (Mynediad at systemau rhwydwaith a gwybodaeth a chronfeydd data perthnasol), 49 (Mynediad at systemau rhwydwaith a gwybodaeth a chronfeydd data perthnasol), 94 (Cydweithrediad gweinyddol ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â threth anuniongyrchol) a 95 (Cymorth cydfuddiannol i adennill hawliadau sy'n ymwneud â threthi, tollau a mesurau eraill).

Tynnodd Adran 6 o'r Datganiad sylw at y ffaith na ddaethpwyd i gytundeb eto ar y meysydd y tynnodd Michel Barnier sylw atynt ar 8 Mehefin. Mae'r Datganiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod angen cytundeb ar y trefniadau ar gyfer Ardaloedd Gorsafoedd Sofran y DU yng Nghyprus ar ôl Brexit.

Bwriad y Datganiad ar y Cyd oedd llywio'r drafodaeth ar y negodiadau fel rhan o gyfarfod Cyngor yr UE ar 29 Mehefin. O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, daeth Cyngor yr UE i bedwar casgliad ar y negodiadau. Dyma grynodeb am Gyngor yr UE:

- croesawodd y cynnydd pellach a wnaed ar rannau o destun cyfreithiol y Cytundeb Ymadael, fel y'i cyhoeddwyd ar 19 Mehefin. Fodd bynnag, mae'n nodi y bydd angen cytuno ar agweddau eraill o hyd, gan gynnwys cymhwyso'r Cytundeb Ymadael yn diriogaethol, yn enwedig o ran Gibraltar.
- mae'n pryderu na chyflawnwyd cynnydd sylweddol eto ar gytuno ar ateb os metha popeth arall i'r ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. O ganlyniad, mae'n galw am ymdrechion dwysach fel y gellir cwblhau'r Cytundeb Ymadael, gan gynnwys ei ddarpariaethau ar gyfer cyfnod pontio, cyn gynted â phosibl';
- mae'n credu y dylid cyflymu'r negodiadau i geisio llunio datganiad gwleidyddol ar y fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod angen rhagor o eglurder, yn ogystal â chynigion realistig ac ymarferol gan y DU o ran ei safbwynt ar y berthynas yn y dyfodol; ac
- mae'n galw ar yr holl randdeiliad i ddatblygu eu gwaith ar barodrwydd ar bob lefel ac ar gyfer pob canlyniad.

Ar 8 Mehefin, cyhoeddodd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad ar y berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit: Dadleuodd yr adroddiad y canlynol:

The UK and the EU have approached the negotiations with too great an emphasis on the dismantling of existing relationships. They have focused on 'red lines' and guidelines, on what is unacceptable, increasing the risk that they will be left without agreement on the future relationship.

Partneriaeth yn y dyfodol

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid yw Llywodraeth y DU wedi datgelu, eto, ei Phapur Gwyn sydd wedi'i adrodd yn eang yn amlinellu ei huchelgeisiau llawn ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Disgwylir i'r Papur Gwyn hwn gael ei gyhoeddi ar ôl cyfarfod Cabinet y DU ar 6 Gorffennaf, sydd wedi cael cryn gyhoeddusrwydd. Fodd bynnag, ar 2 Gorffennaf, adroddodd papur newydd y Guardian fod ffynonellau'r UE sydd wedi gweld drafftiau o'r papur gwyn yn dweud na fyddai'r cynigion fyth yn cael eu derbyn.

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Gweinidog Tai ac

Adfywio Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor nad oedd llywodraethau datganoledig y DU, ar 2 Gorffennaf, wedi gweld drafft o'r papur gwyn yn ei gyfanrwydd eto.

Er gwaethaf diffyg Papur Gwyn, mae Llywodraeth y DU a'r UE wedi cyhoeddi rhagor o fframweithiau, nodiadau technegol a sleidiau sy'n ymwneud â'r bartneriaeth rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys trafndiaeth, cyfraith sifil a throseddol, cydgysylltu materion rhyngwladol a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r UE sy'n gysylltiedig â'r gofod. Cafwyd araith gan Ganghellor y DU hefyd yn y Mansion House ar 21 Mehefin, a oedd yn canolbwyntio ar safbwynt y DU ar gytundeb gwasanaethau ariannol yn y dyfodol â'r UE. Caiff y rhain eu trafod yn fanylach isod.

Trafnidiaeth

Cyhoeddwyd sleidiau Llywodraeth y DU ar fframwaith ar gyfer y bartneriaeth rhwng y DU a'r UE: Trafnidiaeth ar 7 Mehefin. Mae'r sleidiau hyn yn nodi'r canlynol:

...no single existing precedent meets the UK's or EU's ambitions but there are practical examples from which we can build.

Mae'r sleidiau'n canolbwyntio ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer trafndiaeth awyr a ffyrdd. O ran trafndiaeth awyr, mae Llywodraethau'r DU am gynnal cysylltedd a phrisiau fforddiadwy a chynnal y trefniadau ar gyfer cludwyr awyr trwyddedig y DU a'r UE i weithredu gwasanaethau awyr yn gyfartal yn gyfan gwbl o fewn tiriogaeth y DU a'r UE fel ei gilydd.

Mae hefyd eisiau cydweithrediad parhaus ar Reoli Traffig Awyr, i gynnal y gallu i ryngweithredu, ac ar fygythiadau diogelwch ac ar lunio safonau rhyngwladol. Mae Llywodraeth y DU hefyd am barhau i fod yn rhan o Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop (EASA), gan nodi ei bod yn barod:

...to respect the remit of the ECJ [European Court of Justice] in that regard, and make an appropriate financial contribution.

O ran trafndiaeth ffyrdd, mae Llywodraeth y DU yn chwilio am ateb sy'n cael gwared ar yr angen am drwyddedau, dogfennau ychwanegol, a gwiriadau dogfennau systematig. Er mwyn gwneud hyn, mae am gynnal:

- mynediad rhydd i gludo nwyddau ar lorïau, gan gynnwys "cabotage"⁵ a "hawliau traws-fasnach."⁶
- teithio trawsffiniol rhydd mewn bws neu goets; a
- rhyddid dinasyddion i yrru yn y DU a'r UE heb wiriadau a dogfennaeth ychwanegol.

Cyfraith sifil a throseddol

Ar 24 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU nodyn technegol ar ddiogelwch, gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol. Roedd y nodyn hwn yn nodi cynigion y DU ar gyfer Cytuniad Diogelwch Mewnol newydd rhwng y DU a'r UE, a fyddai'n gwneud y canlynol:

...provide a legal basis for future cooperation relating to police and judicial cooperation in criminal matters on the basis of existing EU police and criminal justice measures.

Ymatebodd Michel Barnier i gynigion y DU mewn araith yn Asiantaeth yr Undeb Ewropeaidd dros Hawliau Sylfaenol ar 19 Mehefin. Yno, nododd y bydd partneriaeth ddiogelwch yr UE â'r DU yn y dyfodol yn seiliedig ar bedair colofn:

- cyfnewid gwybodaeth gyfatebol yn effeithiol, gan gynnwys asiantaethau'r DU a Europol a Eurojust, ond heb ganiatáu mynediad i'r DU at gronfeydd data sydd ar gael i aelodau o'r UE yn unig na chronfeydd data sydd ar gael i aelodau o Schengen yn unig.
- cydweithrediad gweithredol rhwng awdurdodau gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys ymchwiliadau byw Europol (gyda chytundeb aelod-wladwriaethau'r UE), ond heb i'r DU fod mewn sefyllfa i lywio cyfeiriad strategol asiantaethau'r UE, megis Europol na Eurojust.
- cydweithrediad barnwrol mewn materion troseddol, gan gynnwys darparu cymorth cyfreithiol gan y ddwy ochr a chydgysylltu rhwng ymchwilwyr ac erlynwyr yr UE a'r DU mewn perthynas â throseddau

⁵ Cabotage yw cludo nwyddau i'w llogi neu er gwobr mewn un aelod-wladwriaeth mewn cerbyd sydd wedi'i gofrestru mewn aelod-wladwriaeth wahanol.

⁶ Traws-fasnach yw trafnidiaeth ffyrdd rhwng dwy wlad wahanol a gyflawnir mewn cerbyd modur ffordd sydd wedi'i gofrestru mewn trydedd wlad. Mae trydedd wlad yn wlad arall heblaw am y wlad lle cafodd y nwyddau eu llwytho/lle cychwynnodd y daith a'r wlad lle cafodd y nwyddau eu dadlwytho/lle daeth y daith i ben.

trawsffiniol. Fodd bynnag, ni chaiff y DU gymryd rhan yn y Warrant Arestio Ewropeaidd oherwydd bod gan hyn gysylltiadau cynhenid â symudiad rhydd pobl. Fodd bynnag, mae'r UE yn barod i weithio gyda'r DU ar estraddodi drwy symleiddio'r weithdrefn, hwyluso prosesau, a chyflwyno terfynau amser.

- mesurau yn erbyn gwyngalchu arian ac ariannu terfysgwyr, a fydd yn cynnwys sicrhau tryloywder ar berchnogion buddiol cwmnïau ac ymddiriedolaethau.

Tynnodd Michel Barnier sylw hefyd at ddisgwyliadau'r UE y bydd y DU yn parhau i fod yn rhan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol os yw am gytuno ar gytuniad diogelwch newydd â'r UE.

Ar 13 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei sleidiau ar fframwaith ar gyfer y bartneriaeth rhwng y DU a'r UE: cydweithredu barnwrol sifil. Yn y sleidiau, mae'r DU yn tynnu sylw at y ffaith a ganlyn:

International civil judicial cooperation has a purpose wider than trade, and predates the single market.

Fel gyda rhaglenni a systemau eraill, mae'r DU yn ceisio trefniant sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sydd gan yr UE ar hyn o bryd â thrydydd partïon, o ystyried ei man cychwyn unigryw. O ganlyniad, mae'r DU yn ceisio cytundeb dwyochrog newydd sy'n cwmpasu ystod lawn o faterion cydweithrediad barnwrol sifil â'r UE, gan gynnwys cyfraith deuluol, sifil a masnachol ac ansolfedd.

Cydweithredu ar faterion rhyngwladol

Ar 21 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU nodyn technegol ar gydgyssylltu diogelwch allanol. Mae hyn yn adeiladu ar ei sleidiau ar fframwaith ar gyfer partneriaeth ddiogelwch rhwng y DU a'r UE a gyhoeddwyd ar 9 Mai a'r nodyn technegol ar gydweithrediad diogelwch, a gyhoeddwyd ar 24 Mai. Roedd y nodyn technegol diweddar yn nodi parodrwydd y DU ar gyfer cydweithrediad yn y dyfodol mewn cosbau rhyngwladol; cefnogi ymgyrchoedd arsylwi ar etholiadau; parodrwydd argyfyngau a materion consylaidd; datblygu a chyflwyno rhaglenni datblygu rhyngwladol; a chynllunio, ymchwilio a datblygu galluedd amddiffyn.

Mae safbwynt yr UE ar y materion hyn wedi'i nodi yn ei sleidiau ar bolisi tramor, diogelwch ac amddiffyn, a gyhoeddwyd ar 15 Mehefin 2018. Mae'r sleidiau hyn yn dod i'r casgliad a ganlyn, er bod ymrwymiad ar y cyd i gydweithredu mewn materion rhyngwladol:

...a number of UK requests are contrary to the parameters set in the European Council guidelines.

Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gofod

Cyhoeddodd y DU ei nodyn technegol ar gyfranogiad y DU yn Galileo ar 24 Mai 2018. Amlinellodd y nodyn hwn ei hawydd i barhau i gymryd rhan yn Galileo fel rhan o bartneriaeth ddiogelwch ehangach rhwng y DU a'r UE. Hoffai'r DU i'w chyfranogiad gynnwys Gwasanaeth Rheoleiddiedig Cyhoeddus amgryptiedig Galileo, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer defnyddio asiantaethau milwrol a'r Llywodraeth.

Ar 13 Mehefin, cyhoeddodd yr UE ei sleidiau ar gymryd rhan yng ngweithgareddau'r UE sy'n gysylltiedig â'r gofod. Mae'r sleidiau hyn yn nodi nad yw'r UE yn barod i ganiatáu i'r DU gael mynediad arbennig at ei raglenni gofod.

Mae'r UE yn barod i roi statws sylwedydd i'r DU mewn pwyllgorau/Asiantaeth yr UE ar gyfer y Rhaglen Ofod, ond ni fyddai'r DU yn rhan o benderfyniadau. Wrth gymryd rhan, byddai'n rhaid i'r DU wneud cyfraniad ariannol a bod yn ddarostyngedig i reolau'r UE ar reolaeth ariannol a chyfranogiad diwydiannol. Yn hollbwysig, mae'r UE yn parhau i fynnu bod unrhyw fynediad at Wasanaeth Rheoleiddiedig Cyhoeddus cadarn a chydnerth Galileo⁷ yn gyfyngedig i aelod-wladwriaethau'r UE.

Gwasanaethau ariannol

Ar 21 Mehefin, cafwyd araith flynyddol y Mansion House⁸ gan Ganghellor y Trysorlys. Ynnddi, canolbwyntiodd ar y negodiadau mewn perthynas â chytundeb gwasanaethau ariannol rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Ynnddi, ailadroddodd safbwynt Llywodraeth y DU na fyddai trefniant cyfatebol safonol yr UE ar gyfer trydydd gwledydd yn ddigonol ar gyfer partneriaeth ariannol rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Nododd fod y DU yn credu mai nod safbwyntiau negodi'r UE yw gorfodi symud busnesau i Ardal yr Ewro. Mae'n dweud mai safbwynt y DU, fel y nodir gan y Canghellor mewn araith ym mis Mawrth 2018, yw'r ffordd orau ymlaen.

Cydnabyddiaeth gan y ddwy ochr o gymwysterau proffesiynol

⁷ Mae Gwasanaeth Rheoleiddiedig Cyhoeddus Galileo yn wasanaeth llywio amgryptiedig i ddefnyddwyr awdurdodedig llywodraethol a chymwysiaid sensitif sy'n golygu bod angen amddiffyniadau cryfach rhag ymyrraeth.

⁸ A gafodd ei chanslo y ddwy flynedd diwethaf o barch at farwolaeth Jo Cox AS yn 2016 a thrasiedi Tŵr Grenfell yn 2017.

Ar 3 Gorffennaf, cafwyd araith gan Robin Walker, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ar gydnabyddiaeth gan y ddwy ochr o gymwysterau proffesiynol yn y dyfodol. Ynnddi, nododd y canlynol

As part of this, we have also agreed to continue recognising qualifications for residents and frontier workers if their qualifications have been recognised, or are in the process of being recognised, before the end of the implementation period. So right up until December 2020.

This will cover everything recognised under the MRPQ directive, as well as lawyers practising under host title and approved statutory auditors and toxic product handlers.

Barn Senedd Ewrop

Ar 20 Mehefin, rhoddodd Guy Verhofstadt, cydgysylltydd Brexit ar gyfer Senedd Ewrop, dystiolaeth i Bwyllgor Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd Tŷr Cyffredin, fel rhan o'i ymchwiliad parhaus i negodiadau'r DU ar ymadael â'r UE. Wrth roi dystiolaeth, dywedodd Mr Verhofstadt mai dymuniad Senedd Ewrop yw i'r fframwaith ar gyfer y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol fod ar ffurf Cytundeb Cysylltu. Dywedodd:

We think it has to be an association agreement that is foreseen in our treaties in Articles 8 and 217. On the one hand, that gives an enormous flexibility, because an association agreement can be very narrow; you can limit yourself only to trade, for example. In an association agreement you can be very broad. You can also put cooperation on foreign and security policy in it. It is flexible and precise at the same time, because you are going to create one governance structure and you are going to create not only one governance structure but also one cycle of ratification...

The advantage of an association agreement is that once it is approved by your side and by the European institutions, the Council and Parliament, it is applicable in advance; you do not need to wait for ratification by the other 27 member states, which can take some time.

Dywedodd Mr Verhofstadt fod cynnig y senedd yn ymgais i godi pont rhwng llinellau coch Llywodraeth y DU ac egwyddorion yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, dywedodd hefyd na fyddai Cytundeb Cysylltu rhwng yr UE a'r DU, ar ei

ben ei hun, yn datrys mater y ffin rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon na'r angen i'r DU benderfynu a ddylid aros ym marchnad sengl yr UE.

Bod yn barod ar gyfer Brexit

Hawliau Dinasyddion yr UE

Ar 21 Mehefin, cyhoeddodd Swyddfa Gartref y DU ddatganiad o fwriad ynghylch cynllun preswyllo'n sefydlog UE Llywodraeth y DU ar ôl Brexit. Bydd angen i ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU a'u teuluoedd wneud cais ar-lein o dan y cynllun preswyllo'n sefydlog i gael eu statws mewnfudo newydd yn y DU.

Caiff statws preswylwyr sefydlog ei roi i'r rhai sydd wedi bod yn byw yn y DU yn barhaus ers pum mlynedd. Bydd y rhai nad ydynt wedi bod yn byw yn y DU ers pum mlynedd eto'n cael statws preswylwyr cyn sefydlu a chânt wneud cais am statws preswylwyr sefydlog pan fyddant wedi byw yma ers pum mlynedd.

O dan y cynllun arfaethedig, bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud cais o dan y cynllun brofi pwy ydynt, dangos eu bod yn byw yn y DU, a datgan nad oes ganddynt euogfarnau troseddol difrifol. Bydd y ceisiadau'n costio £65, gyda ffi is o £32.50 i blant o dan 16 oed. Caiff y rhai sydd â dogfennaeth preswyliaeth barhaus neu ganiatâd amhenodol i aros ddilys ei chyfnewid am statws preswylwyr sefydlog am ddim.

Dywedodd Caroline Nokes AS, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Fewnfudo, yn Nhŷr Cyffredin:

We will engage with our stakeholders on the details set out in the statement of intent. These include the user groups that we have established to help us develop the scheme, involving EU citizens' representatives, embassies, employers and others. We look forward to hearing their views, and will make improvements where we can.

Bydd dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd sy'n byw yn y DU yn gallu dechrau gwneud cais am statws mewnfudo'r DU drwy'r cynllun yn ddiweddarach eleni.

Cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei datganiad o fwriad, ysgrifennodd Mark Drakeford, Ysgrifennydd Cabinet Cymru dros Gyllid, a Fiona Hyslop, Ysgrifennydd Materion Allanol Cabinet yr Alban, lythyr ar y cyd at yr Ysgrifennydd Cartref yn gofyn am ymgynghori'n llawn â'r gweinyddiaethau datganoledig ar fanylion y

cynllun preswyllo'n sefydlog cyn eu cyhoeddi ar 15 Mehefin. Nododd y llythyr y canlynol:

Rydym yn bryderus ynghylch y diffyg eglurder yn ymwneud â rôl ddisgwyliedig llywodraeth leol mewn cysylltiad â'r Cynllun Statws Preswyllydd Sefydlog, o ran rhoi gwybod i ddinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd am y cynllun, ac o ran eu cefnogi drwy'r broses ymgeisio. Mae angen canllawiau a negeseuon clir ar awdurdodau lleol ynghylch yr hyn sydd i'w ddisgwyl ganddynt, gan gynnwys eglurder ynghylch yr adnoddau a fydd ar gael i'r awdurdodau i gefnogi unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol. Rydym yn eich annog yn gryf i wella eich trefniadau ymgysylltu â llywodraeth leol ar lefel wleidyddol ac ymysg y swyddogion wrth weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chonfensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban i sicrhau y caiff y diffyg eglurder hwn ei unioni. Mae hefyd angen ymgysylltu'n ystyrlon â'r Trydydd Sector yn y gwaith hwn, a hoffem ofyn i'ch Adran gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r rhanddeiliaid hyn yng Nghymru a'r Alban.

Ar 3 Gorffennaf, cyhoeddodd Grŵp Llywio Brexit Senedd Ewrop **ddatganiad** mewn ymateb i ddatganiad o fwriad Llywodraeth y DU ynghylch cynllun preswyllo'n sefydlog yr UE. Ysgrifennwyd y canlynol yn y datganiad:

[The European parliament] urge the UK Government to provide as soon as possible and in advance of the tabling of draft legislation details on the powers and responsibilities of Independent Monitoring Authority (IMA) for EU27 citizens in the UK. It is vital that this independent authority, which will be capable of conducting inquiries, receiving complaints and taking legal action before a UK court or tribunal, is up and running by the 30 March 2019.

MEPs remain unhappy that EU27 citizens in the UK, who have contributed to British society and paid their taxes, will have to pay for registration. We continue to believe this process should be cost-free, in keeping with the European Parliament's longstanding position on this matter.

More needs to be done to ensure that vulnerable EU citizens are properly catered for and that any delays faced by citizens with the registration process itself does not create unnecessary anxiety.

Pryderon Brexit busnesau'r DU

Ar 3 Gorffennaf, cyhoeddodd Siambrau Masnach Prydain restr o 24 o gwestiynau ymarferol y mae ar fusnesau angen atebion iddynt mewn perthynas â Brexit. Mae'r cwestiynau'n ymwneud â symudiad pobl, disodli neu gynnal cyllid gan raglenni ac asiantaethau'r UE, cyfraddau treth ar werth (TAW) yn y dyfodol, y modelau rheoleiddio a safonau newydd, dangosyddion o'r gyfundrefn fasnachu ddisgwyliedig, cynnal a chadw cysylltedd digidol â'r UE a threfniadau ffiniau a thollau yn y dyfodol.

Yn eu datganiad a oedd yn cyd-fynd â'r cwestiynau, dywedodd Siambrau Masnach Prydain eu bod yn gwneud y canlynol:

...calling on the UK government to draw a line under internal political debate and deliver urgent clarity on the practical, detailed issues that underpin trade – or face a continued deterioration in investment intentions and confidence as the clock ticks down to the October deadline to complete the UK's Withdrawal Agreement.

O fewn y cyfnod adrodd, cafwyd rhybuddion gan nifer o fusnesau unigol y DU ar gyflymdra'r negodiadau a'r effaith y gallai senario 'dim cytundeb' ei chael ar economi'r DU.

Ar 21 Mehefin, cyhoeddodd Airbus asesiad risg ar y goblygiadau i'w fusnes mewn senario dim cytundeb. Mae'r datganiad i'r wasg cyfatebol a gyhoeddwyd gan Airbus yn datgan y canlynol:

It [the risk assessment] states that the UK exiting the EU next year without a deal – therefore leaving both the single market and customs union immediately and without any agreed transition – would lead to severe disruption and interruption of UK production. This scenario would force Airbus to reconsider its investments in the UK, and its long-term footprint in the country, severely undermining UK efforts to keep a competitive and innovative aerospace industry, developing high value jobs and competences.

Ceir rhagor o wybodaeth am asesiad risg Airbus yn Adran 3.

Ar 26 Mehefin, galwodd Cymdeithas y Gwneuthurwyr a Masnachwyr Moduron am gynnydd cyflymach ar y negodiadau Brexit a chytundeb sydd, o leiaf, yn cynnal aelodaeth o'r undeb tollau ac yn darparu manteision y farchnad sengl.

Ymhlith y cwmnïau eraill sydd wedi mynegi pryderon tebyg, mae **BMW**, Prif Weithredwr Standard Life Aberdeen a **Gerry Grimston o Fanc Barclays**, a'r cymdeithasau **busnes Americanaidd, Canadaidd, Siapaneaidd ac Indiaidd** yn yr UE.

Cysylltiadau rhynglywodraethol a rhyngseneddol

Cynhaliodd y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit **ei bedwerydd cyfarfod** ar 21 Mehefin 2018. Cafodd y cyfarfod hwn ei gynnal gan Dŷ'r Cyffredin a'i gadeirio gan Syr Bernard Jenkin AS, Cadeirydd y Pwyllgor Gweinyddu Cyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol. **Nodwyd y canlynol mewn datganiad ar y cyd** y cytunwyd arno gan y rhai a oedd yn bresennol:

Rydym yn cydnabod nad yw'r system bresennol ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol yn addas at y diben a bod angen ei diwygio ar frys. Heddiw, trafodwyd yr angen am dulliau rhynglywodraethol ar gyfer fframweithiau cyffredin y DU a phwysigrwydd trefniadau craffu effeithiol ar y prosesau hyn ac ystyried yn fanwl y pryderon am gysylltiadau rhynglywodraethol presennol a nodwyd gan ystod o'n Pwyllgorau priodol.

Rydym yn nodi nad yw Llywodraeth y DU wedi amlinellu ei chynigion eto ar gyfer diwygio dulliau rhynglywodraethol na sut y bydd fframweithiau cyffredin y DU yn gweithredu. Rydym yn annog y Llywodraeth i gyhoeddi'r cynigion hyn cyn gynted â phosibl i roi amser i'w hystyried ac i ymgynghori arnynt.

Cynrychiolwyd y Cynulliad Cenedlaethol gan David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, a Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Ar 22 Mehefin, cynhaliwyd **cyfarfod** Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Negodiadau Ewropeaidd yn Guernsey cyn cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Hefyd, cynhaliodd Prif Weinidogion Cymru a'r Alban **gyfarfod ar wahân** ar ôl cyfarfod y Cyngor â Leo Varadkar, Prif Weinidog Iwerddon. Ar 27 Mehefin, cynhaliwyd ail gyfarfod y **Fforwm Gweinidogol ar y Cyd** ar negodiadau Brexit. Ceir rhagor o fanylion am y cyfarfodydd hyn yn adran 4 o'r adroddiad hwn.

Deddfwriaeth y DU

Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Ar 12 a 13 Mehefin, trafododd aelodau o Dŷ'r Cyffredin newidiadau a wnaed gan yr Arglwyddi yn ystod Adroddiad a Thrydydd Darlleniad **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**. Cytunwyd ar holl welliannau'r Llywodraeth a wnaed gan yr Arglwyddi ac, o ran newidiadau anllywodraethol, penderfynwyd derbyn un, addasu un, gwrthod wyth a disodli pump â gwelliannau yn eu lle.

Ar 13 Mehefin, cerddodd aelodau o'r SNP allan o gwestiynau'r Prif Weinidog wrth brotestio ar ôl i Dŷ'r Cyffredin dreulio llai nag 20 munud y diwrnod blaenorol yn trafod darpariaethau'r Bil Ymadael ynghylch datganoli, er i Senedd yr Alban wrthod rhoi cydsyniad i'r Bil ar **15 Mai**. Yn ddiweddarach, gofynnodd yr SNP am drafodaeth frys ar ddilysrwydd Confensiwn Sewel a chafodd ei chynnal ar 18 Mehefin. I gael rhagor o wybodaeth am y ddadl, darllenwch **erthygl blog** y Gwasanaeth Ymchwil.

Ar 18 Mehefin, dychwelodd y Bil Ymadael i Dŷ'r Arglwyddi i drafod y gwelliannau y penderfynodd Tŷ'r Cyffredin eu haddasu, eu gwrthod neu eu disodli. Ni fyynnodd yr Arglwyddi unrhyw un o'u gwelliannau i'r Bil, ond gwnaethant ddiwygio'r Bil ar ôl pleidlais i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU gyflwyno cynnig diwygiedig i Dŷ'r Cyffredin gymeradwyo datganiad ar sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen ar ddiwedd negodiadau Erthygl 50. Cyflwynwyd cynigion eraill gan Lywodraeth y DU fel gwelliannau cyfaddawd er mwyn osgoi colli yn Nhŷ'r Arglwyddi. Cytunwyd ar y rhain gan yr Arglwyddi heb bleidlais. Daethpwyd i gytundeb ar rannau eraill o'r Bil heb bleidlais ac, o ganlyniad, nid oeddent yn destun rhagor o drafodaeth.

Ar 20 Mehefin, dychwelodd y Bil Ymadael i Dŷ'r Cyffredin er mwyn i'r Aelodau drafod y newidiadau a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi. Trafododd yr Aelodau y pedwar mater nad oedd y ddau Dŷ wedi dod i gytundeb arnynt eto oherwydd bod gwelliannau'r Llywodraeth yn eu lle yn cael eu cyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi a bod llywodraeth yn cael ei threchu ar gymeradwyaeth seneddol y cytundeb ymadael. Pleidleisiodd Tŷ'r Cyffredin gyda Llywodraeth y DU i wneud newidiadau i'r gwelliant mewn perthynas â'r mater hwn o gymeradwyaeth seneddol. Mae'r gwelliant y cytunwyd arno'n nodi y byddai'r cynnig i gymeradwyo datganiad Llywodraeth y DU ar sut y mae'n bwriadu symud ymlaen mewn termau niwtral, sy'n golygu na ellid diwygio'r datganiad o fwriad. Cytunodd Tŷ'r Cyffredin i'r tri gwelliant a oedd yn weddill heb bleidlais.

Dychwelodd y Bil i Dŷ'r Arglwyddi y noson honno i'r Arglwyddi drafod gwelliant Tŷ'r Cyffredin ar gymeradwyaeth seneddol y cytundeb ymadael, sef yr unig bwynt gwahaniaethol a oedd ar ôl yn y Bil. Cytunodd Tŷ'r Arglwyddi ar y gwelliant heb bleidlais ac, wrth wneud hynny, cytunodd ar destun terfynol y Bil.

Ar 26 Mehefin, rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Ymadael.

Deddf Dulliau Diogelu Niwclear 2018

Ar 26 Mehefin, cafodd Deddf Dulliau Diogelu Niwclear 2018 Gydsyniad Brenhinol hefyd. Mae'r Ddeddf yn darparu dulliau diogelu niwclear ar ôl i'r DU adael Euratom drwy alluogi Llywodraeth y DU i wneud rheoliadau ar gyfer dulliau diogelu niwclear a gweithredu cytundebau rhyngwladol mewn perthynas â hwy. Wrth wneud rheoliadau, rhaid i Weinidogion y DU ymgynghori â Swyddfa Rheoleiddio Niwclear y DU a rhaid i'r rheoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn Nhŷ'r Senedd a Thŷ'r Cyffredin yn y DU. Os yw unrhyw un o'r cytundebau rhyngwladol a wneir yn y dyfodol ar ddulliau diogelu niwclear i'w gweithredu gan Lywodraeth y DU drwy reoliadau yn gytuniadau y mae angen eu cadarnhau gan y DU, rhaid eu gosod gerbron Senedd y DU fel sy'n ofynnol yn ôl prosesau cadarnhau Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010.

Mae dulliau diogelu niwclear wedi'u cadw a bydd darpariaethau'r Bil yn gymwys i'r DU gyfan. Yn ystod Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin, yn dilyn ymgais aflwyddiannus yr SNP i ychwanegu cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Gweinidogion datganoledig cyn cwblhau cytundebau rhyngwladol newydd mewn perthynas â dulliau diogelu niwclear, dywedodd Richard Harrington AS, ar ran Llywodraeth y DU:

As I have said, nuclear safeguards are not a devolved matter. Despite the responsibility legally being the UK Government's, I hope that our general approach of having an open and transparent process, which is evolving, would be described as reassuring. The Government are acutely aware of the value of consultation in developing this new regulatory regime—obviously with the ONR, but also with the industry generally and formally and informally with parliamentary colleagues. As I have explained before, the nuclear safeguards regime regulations will be subject to detailed consultations with the regulator and industry. Industry stakeholders across the UK, which of course includes Scotland, Wales and Northern Ireland, will be widely encouraged to take part in that consultation. The outcome of the consultation will then be made public, in line with the Government's general policy on consultations.

The public consultation on the draft regulations will not be the first or only opportunity for stakeholders to be made aware of our intentions, and it will not be their only opportunity to provide the Government with their views. We have had detailed discussions with the nuclear

industry since the referendum, and we will continue to work closely with it and other stakeholders when taking the development of the new regime forward, including the development of regulations. My officials have already been in discussions with colleagues from across the devolved Administrations and the relevant environment agencies, such as the Scottish Environment Protection Agency, Natural Resources Wales and so on, to ensure effective collaborations on key Euratom-related policy areas—including the domestic nuclear safeguards regime—and will continue to do so.

Bil Trwyddedau Cludo a Chofrestru Trelars

Ar 26 Mehefin, cafodd y **Bil Trwyddedau Cludo a Chofrestru Trelars** ei Drydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin. Disgwylir i'r Bil, a ddechreuodd yn Nhŷ'r Arglwyddi, ddychwelyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 4 Gorffennaf er mwyn trafod y newidiadau a wnaed gan Dŷ'r Cyffredin. Diben y Bil yw gwneud darpariaeth i helpu cludwyr y DU i barhau i weithredu'n rhyngwladol ar ôl i'r DU adael yr UE. O ganlyniad, mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddarparu cynllun trwyddedau cludo, os bydd angen cynllun o'r fath fel rhan o gytundeb gyda'r UE, gyda'r nod o sicrhau y gall cludwyr y DU gael y gwaith papur angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau i wledydd yr UE ac oddi yno. Mae hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i gyflwyno cynllun cofrestru trelars. Mae'r Bil yn ymestyn ac yn gymwys i Gymru ac nid yw'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn nodi nad oes gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â thrwyddedau cludo nwyddau ar lorïau a chofrestru trelars.

Trethiant a Masnach

Nid yw'r dyddiadau ar gyfer Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ar y **Bil Trethiant (Masnach Drawsffiniol)** a'r **Bil Masnach** wedi'u cyhoeddi'n ffurfiol eto, ond adroddwyd yn y wasg y cânt eu cyhoeddi ar 16 Gorffennaf a 17 Gorffennaf yn y drefn honno. Cafodd y ddau Fil Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Tachwedd 2017. Mae **diwygiadau diweddar** a gyflwynwyd mewn perthynas â'r Bil Masnach yn cynnwys cynnig trawsfeiniol i weithredu cytundeb rhyngwladol i alluogi'r DU i ymaelodi â Chymdeithas Masnach Ewrop a pharhau fel llofnodwr i Gytundeb yr AEE.

O ran masnach yn y dyfodol, ysgrifennodd Greg Hands AS, y cyn Weinidog Gwladol dros Bolisi Masnach, at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 17 Mehefin yn dweud bod Llywodraeth y DU wedi

ymrwymo i sicrhau bod y gweinyddiaethau a'r deddfwrfeydd datganoledig yn cael y cyfle i ymgysylltu â pholisi masnach y DU a chyfrannu ato. Mae'r llythyr yn nodi bod 14 o Weithgorau Masnach ar draws 21 o wledydd wedi'u sefydlu. Yn ôl y Gweinidog, mae Llywodraeth y DU yn darparu'r rhain oherwydd bod cysylltiadau rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl, ond mae'n awyddus bod gan y Gweinyddiaethau Datganoledig rôl wrth helpu i baratoi i drafod cytundebau masnach yn y dyfodol.

Deddfwriaeth y DU sydd i ddod

Ar 13 Mehefin, cynhaliodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin sesiwn dystiolaeth gyda Michael Gove AS, Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yn ystod y sesiwn, holodd y pwyllgor Mr Gove am waith Defra, gan gynnwys paratodau ar gyfer Brexit. Dywedodd Mr Gove ei fod yn gobeithio y caiff Bil Amaethyddol Llywodraeth y DU ei gyhoeddi cyn toriad yr haf.

Yn araith y frenhines yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i gyflwyno Bil Pysgodfeydd i reoli mynediad at ddyfroedd y DU a phennu cwotâu pysgota ar ôl iddi adael yr UE. Ar 4 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phapur gwyn ar bysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r papur gwyn hwnnw'n nodi dull arfaethedig Llywodraeth y DU ynghylch:

- Hyrwyddo pysgodfeydd cynaliadwy;
- Cytundebau mynediad a dyraniad cwotâu;
- Rheoliadau technegol y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC);
- Fframwaith newydd y DU; a
- Diwygio rheolaeth pysgodfeydd.

Datblygiadau'r Cynulliad ar ddeddfwriaeth Brexit

Ar 14 Mehefin, ysgrifennodd y Llywydd at y Prif Weinidog ynghylch gwelliant i'r Bil Ymadael i gadw egwyddorion amgylcheddol yr UE. Cytunwyd ar welliant wrth dderbyn y Bil drwy Senedd y DU sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, o fewn chwe mis i dderbyn Bil Ymadael â'r UE, gyhoeddi Bil drafft a fyddai'n gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi datganiad o fwriad y polisi mewn perthynas â chymhwysu a dehongli cyfres o egwyddorion amgylcheddol. Yn ogystal, rhaid i'r Bil drafft gynnwys darpariaethau ar gyfer sefydlu awdurdod cyhoeddus a allai gymryd camau gorfodi cymesur os yw o'r farn

nad yw Gweinidog y DU yn cydymffurfio â'r gyfraith amgylcheddol. Mae'r adran newydd yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion y DU yn unig. Fodd bynnag, codwyd y mater a oedd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y gwelliant y cytunwyd arno ar gyfer y Bil ar y sail ei fod yn ymwneud â materion mewn cymhwysedd datganoledig. Cafodd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ei gymeradwyo gan y Cynulliad ar Fil Ymadael â'r UE ei dderbyn cyn i'r newidiadau hyn gael eu gwneud.

Gofynnodd y llythyr a ysgrifennwyd gan y Llywydd i Lywodraeth Cymru gadarnhau cyn gynted â phosibl a oedd yn bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r diwygiad.

Yn ystod y drafodaeth fer ar y diwygiad ar 18 Mehefin, dywedodd yr Arglwydd Callanan, ar ran Llywodraeth y DU, y byddai'r gwelliant a'r Bil drafft dilynol yn gymwys i Loegr yn unig ac yn cael ei gadw i faterion:

As we made clear in our consultation document and in last week's Commons debates, the amendment applies only to England and to reserved matters. The draft Bill itself will similarly apply only to England and to reserved matters. That means that neither the amendment nor the draft Bill that will flow from it will trigger the legislative consent process. I understand that the Welsh Government do not share our view, and it is of course open to them to put forward a legislative consent Motion in the Assembly. That is clearly a matter for the Assembly and it would not change the UK Government's view.

Dywedodd yr Arglwydd Callanan hefyd y byddai Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ar y corff newydd, gan gynnwys a yw am ddilyn dull gweithredu tebyg neu, yn wir, un gwahanol ei hun.

Ar 19 Mehefin, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar fater cysylltiedig. Yn ystod camau nôl ac ymlaen Bil Ymadael â'r UE, codwyd y mater a allai Llywodraeth y DU dorri Cytundeb Rhynglywodraethol ar y Bil Ymadael o ganlyniad i'r diwygiad egwyddorion amgylcheddol. Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn datgan bod Llywodraeth y DU yn ymrwmo i beidio â chyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n newid meysydd polisi ar gyfer Lloegr os caiff y deddfwrfeydd datganoledig eu hatal rhag gwneud hynny o ganlyniad i gyfyngiadau a osodwyd ar eu cymhwysedd gan Weinidogion y DU o dan y pwerau yn y Bil Ymadael.

Mae'r adran sy'n ymwneud â chynnal egwyddorion amgylcheddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Bil drafft o fewn chwe mis. Pe bai cyfyngiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn cael eu gosod ar gymhwysedd datganoledig y Cynulliad rhwng nawr a dyddiad cyhoeddi'r Bil amgylchedd drafft, gallai Llywodraeth y DU fod mewn perygl o dorri'r sicrwydd yn y Cytundeb Rhynglywodraethol drwy gyflwyno deddfwriaeth mewn maes polisi sy'n destun cyfyngiadau. Gofynnodd y llythyr i Ysgrifennydd y Cabinet egluro a oedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ar oblygiadau'r diwygiad ac a oedd o'r farn y gallai dorri'r Cytundeb Rhynglywodraethol.

Cafodd y Pwyllgor **ymateb i'w lythyr** yr un diwrnod. Mae'r llythyr yn nodi'r canlynol:

Mae Llywodraeth y DU yn gwbl glir mai i Loegr yn unig, neu i faterion a gedwir yn ôl, y bydd y Bil drafft yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ei lunio yn gymwys. At hynny, mae'n ofynnol yn ôl y gwalliant i'r Bil nodi cyfres o egwyddorion amgylcheddol trawsbynciol. Nid yw'r gwelliant yn gorfodi Llywodraeth y DU i lunio Bil sy'n nodi fframwaith deddfwriaethol mewn perthynas ag un o'r meysydd polisi penodol a restrir yn yr Atodiad i'r Cytundeb Rhynglywodraethol.

